**Alun Davies AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Cabinet Secretary for Local Government and Public Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DC ARD 05191 17

Y Cyng. Meirick Lloyd Davies
Cadeirydd
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

21 Chwefror 2018

Annwyl Meirick,

Yn ein cyfarfod ar 15 Chwefror, cytunais i ysgrifennu atoch chi a'ch cyd-gadeiryddion yn amlinellu'r materion y dylai system ddiwygiedig ar gyfer llywodraethu a chyllido yr Awdurdodau Tân ac Achub fynd i'r afael â nhw yn fy marn i. Byddwn yn croesawu eich sylwadau ar y materion hyn er mwyn fy helpu i lywio'r system honno.

Fel y dywedais yn ein cyfarfod, nid diben diwygio yw cywiro methiant. Nid y diben ychwaith yw eich beirniadu chi, eich cyd-gadeiryddion na'ch prif swyddogion tân. Mae'r bai ar y system rydych yn gweithio ynddi. Heb amau eich ymdrechion, nid wyf yn credu bod y system honno yn cefnogi orau y gwasanaethau o ansawdd uchel y mae Cymru'n dibynnu arnynt. Mae'r system yn dyddio o ganol y 1990au mewn cyfnod lle nad oedd y Gwasanaeth Tân yn gwneud llawer mwy na mynd ati i ddiffodd tanau. Nid yw'n fawr mwy na fersiwn ranbarthol o'r pwyllgorau a oedd yn rhedeg y Gwasanaeth pan oedd yn rhan o'r hen gynghorau sir. Mae'r galw ar y Gwasanaeth, y pwysau ar gyllid cyhoeddus a'r disgwyliadau o ran llywodraethu da i gyd wedi newid yn sylweddol ers hynny.

Yr hyn sydd wrth wraidd fy mhryderon yw diffyg atebolrwydd. Wrth hynny, rwy'n golygu ymdeimlad lle mae cyrff cyhoeddus yn atebol i'r rheini maent yn eu gwasanaethu. Gallai hynny olygu bod yn atebol yn uniongyrchol i'r etholwyr, yn yr un modd ag awdurdodau lleol, neu yn anuniongyrchol drwy'r Cynulliad, yn yr un modd â Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill. Atebolrwydd o'r fath yw'r ffordd orau o sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn diwallu anghenion cyhoeddus. Mae'n gorfodi cyrff cyhoeddus i amddiffyn a chyfiawnhau eu cynlluniau, eu perfformiad a'u penderfyniadau ynghylch gwariant; ac mae'n darparu cymhelliant pwerus i wella, arloesi a gweithredu'n fwy effeithlon.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn syml, nid yw Awdurdodau Tân ac Achub yn atebol yn briodol nac yn ffurfiol mewn unrhyw ffordd ddigonol. Nid ydych chi na'ch cyd aelodau yn cael eich ethol yn rhinwedd eich rolau yn yr Awdurdod Tân ac Achub, ac rydych chi, gyda'ch gilydd, yn cynrychioli tua 6% o boblogaeth Cymru yn unig. Nid ydych ychwaith yn atebol i'ch awdurdodau lleol perthnasol, i Lywodraeth Cymru na'r Cynulliad. Mae hynny'n golygu nad yw eich cynlluniau, na'r ffordd rydych yn eu cyflawni, yn ddarostyngedig i unrhyw broses graffu na her ffurfiol. Nid yw'r cynlluniau hynny ychwaith yn seiliedig ar fandad democrataidd. Rwy'n pwysleisio unwaith eto nad eich bai chi yw hyn, ac rwy'n gwybod eich bod yn ceisio ymgysylltu â'r cymunedau rydych yn eu gwasanaethu er gwaetha'r gwendidau hyn. Ond nid yw hynny'n gyfnewid derbyniol na chynaliadwy.

Felly, byddwn yn croesawu eich barn ar **sut, ac i bwy, y dylai Awdurdodau Tân ac Achub yn gyffredinol fod yn atebol**. Gallai hynny gynnwys bod yn atebol i awdurdodau lleol, i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad, neu'n uniongyrchol i'r etholwyr. Efallai y dylai'r dewis ddibynnu ar i ba raddau y dylai'r gwasanaethau tân ac achub fod yn seiliedig ar anghenion a blaenoriaethau lleol, ac i ba raddau dylai fod yn seiliedig ar safonau proffesiynol cyffredin, newidiadau cymdeithasol ar lefel genedlaethol a lefelau risg. Dylai hefyd ystyried sut y mae rôl yr Awdurdod yn amrywio'n gynyddol, yn benodol er mwyn cefnogi'r gwasanaeth iechyd.

Mae mater tebyg yn codi o ran eich system gyllido, sy'n rhoi lefel eithriadol o ymreolaeth i chi bennu cyllidebau. Mae'r holl wasanaethau tân yn rhannau eraill y DU, ac yn wir pob corff cyhoeddus arall, yn ddarostyngedig i ryw fath o reolaeth neu gymeradwyaeth allanol o'u cyllidebau, ac/neu yn atebol i'r etholwyr o ran hyn. Rwy'n derbyn eich bod wedi defnyddio'r rhyddid hwn yn synhwyrol, a'ch bod yn wir wedi gwneud rhywfaint o doriadau sylweddol i'ch gwariant. Rwyf hefyd yn cytuno bod yn rhaid i'r cyllid ar gyfer y gwasanaethau brys fod yn gynaliadwy a bod rhaid sicrhau diogelwch y cyhoedd. Ond heb unrhyw broses reoli allanol, mae'r pwysau i nodi arbedion a'u gwireddu, fel sydd ar yr holl gyrff cyhoeddus eraill, ar goll. Mae'n bosibl nad cyd-ddigwyddiad ydyw felly bod y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru yn y chwartel uchaf o ran gwariant y pen ym Mhrydain Fawr, a'u bod yno ers cryn amser.

Byddwn felly yn croesawu eich barn ar **sut y dylid ariannu Awdurdodau Tân ac Achub er mwyn sicrhau atebolrwydd, effeithlonrwydd a chynaliadwyedd**. Gallai hynny ddibynnu ar ystyriaethau tebyg i'r materion llywodraethu a ddisgrifiais uchod. Gallai fod yn bosibl, er enghraifft, i gyllidebau'r Awdurdod gael eu cyfuno drwy gytundeb â'ch awdurdodau lleol perthnasol; neu gallem lunio model o gyllid canolog yn seiliedig ar fformiwla sy'n debyg i'r grant cynnal refeniw. Ond eto, mae angen i ni ystyried sut y mae'r gwasanaeth yn amrywio. Gall fod yn anodd cyfiawnhau ariannu'r gwasanaeth yn lleol yn unig gan fod mwy a mwy o waith yr Awdurdod yn cael ei wneud i gefnogi'r gwasanaeth iechyd. Os ydych yn teimlo y dylai'r gwasanaeth iechyd wneud cyfraniad cyson y cytunwyd arno i'r gwaith hwnnw, rwy'n fodlon trafod hynny â'm cydweithwyr.


Yn olaf, rwy'n pryderu am yr atebolrwydd mewnol yn yr Awdurdodau Tân ac Achub. Yn wahanol i awdurdodau lleol, nid oes gennych raniad ffurfiol rhwng rolau gweithredol a chraffu. Yn wir, nid yw hynny'n bosibl gan fod rhaniad o'r fath yn dibynnu ar gael grŵp rheoli neu glymblaid sydd â mandad i'w gyflawni. Nid wyf ychwaith wedi fy argyhoeddi bod aelodaeth sy'n cynnwys cynghorwyr yn unig yn y sefyllfa orau i ddwyn yr uwch reolwyr i gyfrif. Yn amlwg, mae cynghorwyr yn hollbwysig ar gyfer mynegi pryderon lleol. Er fy mod yn cytuno bod hynny'n wir i ryw raddau o ran busnes yr Awdurdod Tân ac Achub, fel y posibilrwydd o gau gorsafoedd, mae llawer o'r busnes hwnnw - neu fe ddylai fod – yn ymwneud â chynnal safonau proffesiynol, mynd i'r afael â newidiadau i risg a deall yr heriau strategol sy'n wynebu'r Gwasanaeth. Nid yw hyn yn faes naturiol i lawer o gynghorwyr, ac mae'n aml yn anochel yn faes technegol. Mae'n bosibl y byddai cymysgedd gwahanol o aelodau yn fwy addas i'r rôl; eto, gallai hynny ddod yn fwy pwysig wrth i waith y Gwasanaeth ddod yn fwy amrywiol.

Rwy'n derbyn yn llawn efallai nad yw hyn yn dderbyniol i chi. Nid wyf yn taflu amheuaeth ar eich ymroddiad i'r rôl. Ond byddwn yn croesawu eich barn **ar a ddylid newid aelodaeth Awdurdodau Tân ac Achub i ddod â mwy o arbenigedd i bob Awdurdod, ac os felly, sut?** Fel y dywedais, un ateb amlwg fyddai i bob aelod o'r Awdurdod gael ei benodi'n gyhoeddus, fel sy'n digwydd yn yr Alban. Yr opsiwn arall fyddai cael cymysgedd o benodiadau cyhoeddus, ynghyd ag enwebeion o'r cyngor, a hynny o bosibl drwy rôl gyfetholedig neu anweithredol.

I gloi, rwy'n deall yr amheuon sydd gennych chi a'ch cydweithwyr ynghylch diwygio. Ni allaf ond pwysleisio unwaith eto nad oes gen i unrhyw ragdybiaethau nac agenda gudd. Fy mwriad yn syml yw sicrhau bod y Gwasanaeth, ei drefniadau llywodraethu a'i gyllid yn gweithredu ar sylfaen atebol a chynaliadwy gan felly ei roi yn y sefyllfa orau i wynebu heriau'r presennol a'r dyfodol. Rwy'n gofyn am eich barn yn yr ysbryd hwnnw, ac rwy'n gobeithio y bydd modd i chi gyfrannu yn unol â hynny.

Fel y cytunwyd, byddaf yn gofyn i'm swyddogion drefnu cyfarfod arall i ni drafod hyn ar ôl y Pasg. Yna, bydd angen i mi symud yn gyflym i ddatblygu a gweithredu'r opsiwn a ffefrir.

Rwy'n ysgrifennu llythyr tebyg at Tudor Davies a Rowland Rees Evans.



**Alun Davies AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Cabinet Secretary for Local Government and Public Services